



Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd
Family Information Service



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Dewis Gofal Plant



Beth yw Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd?

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn wasanaeth gwybodaeth a chyngor diduedd am ddim i BOB rhiant/gofalwr plant a phobl ifanc rhwng 0 a 20 oed a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw. Maen nhw'n gallu darparu gwybodaeth, cymorth a chyngor i'ch helpu i ganfod a dewis:

- Gofal Plant wedi'i Gofrestru
- Gofal Plant heb ei Gofrestru
- Gweithgareddau plant a phobl ifanc
- Sefydliadau Cymorth i Deuluoedd

Gall y gwasanaeth hefyd ddarparu gwybodaeth am:

- Gymorth gyda chostau gofal plant
- Gyrfaoedd ym maes gofal plant
- Hyfforddiant gofal plant

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn fan cychwyn delfrydol os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â chymorth ar gyfer eich teulu. Bydd eich gwasanaeth lleol yn gallu darparu gwybodaeth benodol ar gyfer eich anghenion unigol chi... felly rhowch alwad iddyn nhw yn gyntaf.

Sut mae cysylltu â'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd?

Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ym mhob awdurdod lleol ac mae manylion cyswllt y rhain i gyd ar gael ar dudalennau 11-13.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda darparwyr gofal plant yn eich ardal i roi gwybodaeth gywir a chyfoes i chi am yr hyn y maen nhw'n gallu ei gynnig. Mae'r llyfryn hwn yn eich tywys drwy'r pethau y mae angen ei chi eu hystyried wrth ddewis gofal plant a'r opsiynau sydd ar gael i chi.



Penodau:

1.	Sut mae dewis gwasanaeth gofal plant	4
2.	Help gyda chostau gofal plant	5
3.	Y mathau o ofal plant (wedi'u cofrestru a heb eu cofrestru)	6
4.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol	9
5.	Gofal plant i bawb	10
6.	Dolenni defnyddiol	11



Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

ISBN Argraffu 978 0 7504 9280 5

ISBN Digidol 978 0 7504 9303 1

© Hawlfraint y Goron 2013

WG15772

Dewis Gofal Plant



1. Sut mae dewis gwasanaeth gofal plant

a) Cysylltwch â chymaint o ddarparwr gofal plant â phosibl cyn penderfynu ar yr un gorau i chi a'ch plentyn. Hefyd, gofynnwch i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a yw'r darparwyr wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) – gweler pennod 4.

b) Gallai'r cwestiynau canlynol fod yn ddefnyddiol wrth ystyried beth sy'n bwysig i chi mewn gwasanaeth gofal plant:

- a. A yw'r gwasanaeth yn groesawus?
- b. A yw'n lle sy'n mynd i ysgogi plant?
- c. Pa gyfleusterau sydd yno?
- ch. A yw'n ofalgar?
- d. Beth am y staff?

I gael mwy o gwestiynau i'w gofyn, cysylltwch â'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol neu ewch i'w gwefan.

Gweler Pennod 6 (tudalennau 11-13) i gael mwy o fanylion.

c) Ar ôl i chi ddod o hyd i wasanaeth gofal plant wrth eich bodd, rhowch gynnig ar gyfnod setlo, gyda rhai ymweliadau byr i chi a'ch plentyn. Bydd hyn yn eich helpu i deimlo'n fwy hyderus a thawel eich meddwl.

ch) Mae'r crynodeb o Erthygl 3 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn datgan y dylai pob sefydliad sy'n gweithio gyda phlant weithio tuag at yr hyn sydd orau ar gyfer pob plentyn. Mae Erthygl 5 yn cydnabod y dylen ni hefyd barchu hawliau rhieni/gwarchodwyr a'u teuluoedd wrth ddewis gofal plant priodol. Bydd hyn yn sicrhau bod plant yn dysgu am ddefnyddio'u hawliau wrth dyfu i fyny, a bydd hynny yn ei dro yn eu helpu i wireddu eu llawn botensial.



2. Help gyda chostau gofal plant

Gall gofal plant ymddangos yn ddrud, ond wyddoch chi fod gan rai teuluoedd hawl i gael help ariannol? Mae'r help hwn yn cynnwys:

1. Credydau Treth/ Credydau Cynhwysol
2. Lleoedd a gynorthwyr a chynlluniau help llaw
3. Addysg ran-amser am ddim ar gyfer pob plentyn 3 a 4 oed
4. Cynlluniau talebau cyflogwyr gofal plant
5. Dechrau'n Deg

Gall eich Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd roi gwybodaeth i chi am gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, Y Ganolfan Byd Gwaith a rhaglenni lleol eraill, yn ogystal â'r Credyd Cynhwysol pan fydd yn cael ei gyflwyno yn y dyfodol.

*Am wybodaeth fanylach, darllenwch y daflen:
Cymorth i rieni a help ariannol gyda chostau gofal plant.*



3. Mathau o Ofal Plant

(wedi'u cofrestru a heb eu cofrestru)

Mae'n rhaid i bawb sy'n darparu gofal plant am dâl i blant dan 8 oed am fwy na 2 awr y dydd gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

Mae'r bennod hon yn rhoi disgrifiad cryno o'r mathau o ddarpariaeth gofal plant, wedi'u cofrestru a heb eu cofrestru, sydd ar gael i chi. I gael mwy o fanylion, cysylltwch â'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Lleol (manylion cyswllt ar dudalen 11-13).

Wedi'u cofrestru

Gwarchodwyr Plant:

Darparwyr gofal plant yw gwarchodwyr plant sy'n gweithio yn eu cartrefi eu hunain yn gofalu am blant. Maen nhw wedi'u lleoli yn y gymuned.

Meithrinfeydd dydd:

Mae meithrinfeydd dydd yn darparu gofal plant ar gyfer plant o'u genedigaeth hyd nes eu bod yn 5 oed. Fel arfer, maen nhw ar agor o'r peth cyntaf yn y bore tan fin nos, o ddydd Llun i ddydd Gwener, gydol y flwyddyn. Maen nhw'n cynnig amgylchedd gofalgar, diogel, ysgogol, naill ai fel gofal dydd llawn neu ofal rhan-amser ar gyfer babanod a phlant cyn ysgol. Mae rhai yn darparu gofal cyn ac ar ôl yr ysgol ac yn ystod y gwyliau ar gyfer plant hŷn hefyd.

Grwpiau Chwarae / Cylchoedd Meithrin:

Mae grwpiau chwarae'n darparu'n bennaf ar gyfer plant 2½ i 5 oed, am 2 i 3 awr yn y bore neu'r prynhawn ac yn ystod y tymor yn bennaf. Grwpiau chwarae Cymraeg yw Cylchoedd Meithrin sy'n rhoi'r cyfle i blant ddod yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg).



Addysg ran-amser ar gyfer plant 3 a 4 oed:

Mae gan bob plentyn yr hawl i gael lle i dderbyn addysg gynnar ran-amser, o safon dda, yn ystod y tymor ar ôl ei ben-blwydd yn dair oed - a hynny'n rhad ac am ddim mewn lleoliad a gymeradwyir. Mae rhan-amser yn golygu o leiaf 10 awr yr wythnos, am oddeutu'r un nifer o wythnosau â'r flwyddyn ysgol arferol. Gall lleoliad a gymeradwyir fod yn ysgol, grŵp chwarae, meithrinfa ddydd neu ofalwr plant.

Clybiau gofal plant y tu allan i'r ysgol:

Mae clybiau gofal plant y tu allan i'r ysgol yn helpu rhieni sy'n gweithio neu sy'n derbyn hyfforddiant. Maen nhw'n darparu clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol, clybiau gwyliau a gofal cofleidiol ar gyfer plant oedran ysgol.

Cynlluniau chwarae mynediad agored:

Mae cynlluniau chwarae mynediad agored yn fannau lle gall plant fynd a dod. Maen nhw'n gorfod cofrestru gydag AGGCC os ydyn nhw'n cynnig gwasanaeth i blant dan 8 oed am fwy na 2 awr y dydd.

Heb eu cofrestru

Does dim rhaid cofrestru'r opsiynau gofal plant canlynol gydag AGGCC. (Cofiwch, os byddwch yn defnyddio gofal plant nad yw wedi'i gofrestru na'i gymeradwyo, ni fyddwch yn gallu hawlio elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith).

- Grwpiau rhieni a phlant bach/cylchoedd ti a fi)
- Au pair
- Gwarchodwyr plant
- Ffrindiau a pherthnasau (cysylltwch â'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Lleol am fanylion pellach)



Mathau o ofal plant (gan gynnwys rhai sydd wedi'u cofrestru/cymeradwyo):

Nid yw'r opsiynau gofal plant canlynol wedi eu cofrestru gydag AGGCC fel arfer, ond bydd angen eu cofrestru o dan rai amgylchiadau:

- Nani
- Crèche



Cynllun Cymeradwyo Gofal Plant Cymru:

Gall unrhyw un, heblaw perthynas agos sy'n darparu gofal plant yng nghartref y plentyn wneud cais i fod yn weithiwr gofal plant cymeradwy. Er mwyn cael eu cymeradwyo o dan y cynllun hwn, mae'n rhaid i weithwyr gofal plant:

- fod yn 18 oed neu'n hŷn
- fod â chymhwyster gofal plant sydd wedi'u gynnwys ar y Rhestr o Gymwysterau a Dderbynnir ar gyfer y Gweithlu Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru, sef dogfen a luniwyd gan Gyngor Gofal Cymru (www.ccwales.org.uk/)
- fod â thystysgrif cymorth cyntaf
- fod wedi'u clirio o dan y system gwirio cofnodion troseddol

Ewch i'r wefan neu ffoniwch y llinell gymorth isod i gael gwybodaeth am gymeradwyo gweithwyr gofal plant yn eich cartref. Cewch wybod hefyd sut i gael gafael ar elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith neu sut i ddefnyddio talebau gofal plant pan fydd gennych weithiwr gofal plant cymeradwy yn gweithio yn eich cartref.

www.cssiw.org.uk / 0300 062 5609

Sylwer bod y Cynllun Cymeradwyo Gofal Plant yng Nghymru yn gynllun cymeradwy. Er nad yw'n cynnwys cofrestru, efallai y byddwch yn dal i fod yn gymwys i hawlio credydau treth.



4. Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Mae angen i bob lleoliad sydd wedi'i gofrestru gydag AGGCC gydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir, Mawrth 2012. Mae'r ddogfen ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru www.cymru.gov.uk.

Mae'r safonau wedi'u gwneud yn unol ag adran 30 (3) o Ran 2 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae'n rhaid i unigolion sydd wedi cofrestru roi sylw i'r safonau sy'n ymwneud â'r math o ofal a ddarperir.



5. Gofal Plant i Bawb

Mae gan eich Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Fanylion am ddarpariaeth gofal plant addas ar gyfer plant anabl a phlant ag anghenion arbennig yn eich ardal.

Bydd gan y gwasanaeth wybodaeth hefyd am sut y gallwch gael gafael ar help ar gyfer talu'ch costau gofal plant. Mae cynlluniau cyfeirio ym mhob cwr o Gymru yn helpu plant ag anghenion arbennig i fynychu grwpiau chwarae/cylchoedd meithrin gyda phlant eraill yr un oed.

Hygyrchedd a'r Comisiwn Hawliau Anabledd

Mae'n rhaid i bob darparwr gofal plant fodloni gofynion Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 ac mae'n rhaid iddyn nhw wneud 'addasiadau rhesymol' i gynnwys plant anabl. Dydyn nhw ddim yn cael trin plentyn anabl yn "llai ffafriol" oherwydd ei anabledd. Gallwch ffonio'r Gwasanaeth Cymorth Cyngori ar Gydraddoldeb (EASS) ar 0800 444 205 i gael cyngor neu wybodaeth.



6. Dolenni Defnyddiol

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd – Manylion cyswllt Awdurdodau Lleol

Abertawe	01792 517222 fis@swansea.gov.uk http://www.swansea.gov.uk/fis
Blaenau Gwent	08000 32 33 39 (rhadffôn o linell dir) fis@blaenau-gwent.gov.uk www.blaenau-gwent.gov.uk
Bro Morgannwg	01446 704 704 FIS@valeofglamorgan.gov.uk www.valeofglamorgan.gov.uk/fis
Caerdydd	029 2035 1700 fis@cardiff.gov.uk www.childcareincardiff.info/fis
Caerffili	01443 863232 fis@caerphilly.gov.uk www.caerphilly.gov.uk/fis
Casnewydd	0800 328 84 83 01633 212801 family.information.service@newport.gov.uk www.newport.gov.uk/fis
Castell-nedd Port Talbot	01639 873018 fis@npt.gov.uk www.npt.gov.uk
Ceredigion	01545 574187 cis@ceredigion.gov.uk www.fis.ceredigion.gov.uk
Conwy	01492 577850 plant.children@conwy.gov.uk www.conwy.gov.uk/children



Gwynedd	01286 675570 Anfonwch neges destun am wybodaeth 07920083909 Gwynedd-Ni@gwynedd.gov.uk www.gwynedd-ni.org.uk
Merthyr Tudful	01685 727400 fis@merthyr.gov.uk www.merthyr.gov.uk
Pen-y-bont ar Ogwr	0800 180 4320 familyinfo@bridgend.gov.uk www.bridgendfamilyinfo.org.uk
Powys	0300 111 0234 fis@powys.gov.uk www.powys.gov.uk/fis
Rhondda Cynon Taf	0800 180 4151 rhadffôn o linellau tir 0300 111 4151 rhadffôn o ffonau symudol fis@rctcbc.gov.uk
Sir Benfro	01437 775700 fis@pembrokeshire.gov.uk www.pembrokeshire.gov.uk
Sir Ddinbych	01824 708220 fis@denbighshire.gov.uk www.denbighshire.gov.uk
Sir Fynwy	01633 644527 info@monfis.org.uk www.monfis.org.uk
Sir Gaerfyrddin	01267 246555 Gwasanaeth testun y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, dechreuwch eich neges gyda 'Plant' a'i anfon i 07786 202747 childreninfo@carmarthenshire.gov.uk www.fis.carmarthenshire.gov.uk



Sir y Fflint	01244 547017 fisf@flintshire.gov.uk www.flintshire.gov.uk
Torfaen	Rhadffôn 0800 0196330 fis@torfaen.gov.uk www.torfaenfis.org.uk
Wrecsam	01978 292094 fis@wrexham.gov.uk www.wrexham.gov.uk/fis
Ynys Môn	01248 725800 cis@anglesey.gov.uk www.younganglesey.org.uk

Llywodraeth Cymru - www.cymru.gov.uk

Gwefan swyddogol Llywodraeth Cymru.

**Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
(AGGCC) www.cssiw.org.uk**

Y Gogledd

0300 062 5609

cssiwnorth@wales.gsi.gov.uk

Y De-ddwyrain

0300 062 8888

cssiwsoutheast@wales.gsi.gov.uk

Y De-orllewin

01267 245 160

cssiwsouthwest@wales.gsi.gov.uk

Gwaith AGGCC yw sicrhau bod gwasanaethau gofal yn bodloni'r safonau y mae gan bobl hawl i'w disgwyl. Mae'n rhan o Lywodraeth Cymru, ac yn gweithredu'n annibynnol.

Dewis Gofal Plant



Dyma rai o blith llawer o sefydliadau yng Nghymru sy'n gallu darparu cymorth a chefnogaeth. I gael mwy o fanylion, cysylltwch â'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol.

Clybiau Plant Cymru

www.clybiauplantcymru.org

029 2074 1000

Mae Clybiau Plant Cymru yn hyrwyddo a chefnogi clybiau gofal plant y tu allan i'r ysgol o ansawdd uchel sy'n fforddiadwy a hygyrch.

Llinell Ymholiadau Budd-daliadau (BEL)

www.dwp.gov.uk

0800 88 22 00

Llinell gymorth gyfrinachol sy'n cynnig gwybodaeth a chyngor am Lwfans Byw i'r Anabl a budd-daliadau eraill.

Canolfan Byd Gwaith

www.gov.uk/contact-jobcentre-plus

0845 604 4248 (Cymraeg)

0845 604 3719 (Saesneg)

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'n darparu gwasanaethau sy'n cynorthwyo pobl o oedran gweithio i symud o fudd-dal i waith, ac yn helpu cyflogwyr i lenwi eu swyddi gweigion.



Mudiad Meithrin

www.mym.co.uk

01970 639639

Mae Mudiad Meithrin yn ceisio rhoi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru elwa ar brofiadau blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg.

Y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY Cymru)

www.pacey.org.uk

0845 880 1299 (Wales)

PACEY yw'r Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar. Mae'r sefydliad yn pennu safonau sy'n hyrwyddo arferion gorau, ac yn helpu gweithwyr gofal plant proffesiynol i ddarparu gofal a dysgu o safon uchel.

Y Gymdeithas Meithrinfeydd Dydd Genedlaethol

www.ndna.org.uk

01824 707823 (swyddfa Cymru)

NDNA yw'r elusen genedlaethol a'r gymdeithas aelodaeth ar gyfer meithrinfeydd. Mae'n darparu gwybodaeth, cymorth, cyngor ac adnoddau ar gyfer meithrinfeydd er mwyn iddyn nhw allu darparu'r gofal gorau posib i blant ifanc.

Chwarae Cymru

www.playwales.org.uk

029 2048 6050

Hyrwyddo darpariaeth chwarae o ansawdd uchel i bob plentyn, darparu cymorth ar bob agwedd ar waith chwarae gyda staff, datblygu ar y maes chwarae, addysg a hyfforddiant gwaith chwarae.



Credydau Treth

www.hmrc.gov.uk/taxcredits

0845 300 3900

Dolen i wefan Credyd Treth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi sy'n egluro credydau treth. Ceir cyfrifiannell arni i'ch helpu i weld i faint mae gennych chi hawl i'w gael.

Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (PPA Cymru)

www.walesppa.org

029 2045 1242

Mae Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (PPA Cymru) yn darparu gwybodaeth, adnoddau a chymorth i rieni a lleoliadau blynyddoedd cynnar i wella datblygiad ac addysg plant.

Roedd yr wybodaeth yn gywir pan gyhoeddwyd y llyfryn hwn.

